pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 1

Pris: 50c

Papur Pawb

Mawrth 2026 Rhif 517

tud 2 **Diolch Paul**

tud 5 **Noson Hwyl Ddewi**

tud 11 **Cerdded Cymru**

tud 12 **Siom**

Datguddio Trysor o'r Oes Rufeinig

Cafodd y darganfyddiad a wnaed ar dir Erglodd tua blwyddyn a hanner yn ôl gan y ddau ddetectorist lleol, Peter Nicolas a Nick Yallope, ei ddatgelu i'r cyhoedd ddiwedd Chwefror. Daeth y ddau ohonynt o hyd i ddau dalp trwm o blwm yn dyddio o gyfnod y Rhufeiniaid. Bu'n rhaid cadw'r cyfan yn gyfrinach tan yn awr.

Ar dir Geraint Jenkins a'r teulu y daethpwyd o hyd i'r ddau ingot plwm, sy'n pwyso 85 cilogram yr un. Bydd rhai o ddarllenwyr y papur yn cofio'r darganfyddiad a wnaed gan archeolegwyr yn agos i'r safle yn ôl yn 2005, sef olion gwaith toddi plwm, a ddyddiwyd ar y pryd i rhwng 66 CC a 90 OC. Mae'r ddau dalp a ddaeth i'r golwg wedi eu stampio ag enw'r Ymherodr Domitian Cesar Awgustws yn y flwyddyn 87 OC. Dywedodd Geraint Jenkins fod y bariau plwm wedi eu darganfod ar safle'r babell a godwyd gan yr archaeolegwyr yn 2005 pan oeddent yn cloddio'r ffordd goed o'r Oesoedd Canol a osodwyd i lawr i groesi'r tir gwlyb i gyfeiriad y Gelli yn Llangynfelyn.

Nick Yollop, Geraint Jenkins, a Peter Nicolas a'r talpiau plwm

Bu archaeolegwyr hefyd yn cloddio ar dir Erglodd o dan ffordd yr A487 yn ôl yn 1977, pan ddaeth olion seiliau caer Rufeinig fechan i'r golwg ar ôl haf poeth 1976. Roedd y gaer honno wedi'i chodi mewn man delfrydol yn edrych dros Gors Fochno, a daethpwyd o hyd i ddarnau o lestri Rhufeinig yn y pridd.

Y bwriad yw dangos y talpiau plwm mewn arddangosfa yn oriel newydd Amgueddfa Ceredigion a fydd yn agor yn 2027.

Penddelw'r Ymherodr Domitian Caesar Awgustws

Diolch i berchnogion y tir ac i ddyfalbarhad y ddau ddetectorist, mae rhan bwysig o hanes yr ardal yn cael ei diogelu a'i chadw ar gyfer y dyfodol.

Llun un o'r talpiau plwm

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 2

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:
Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:
Cysyllter â golygydd y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:
Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:
Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
07507 652092

Rhwydweithiau cymdeithasol:
Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:
Helena O Sullivan, Bont-goch
07812 994 008

Dylunio:
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Casglu'r Papur:
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

Dosbarthwyr:
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Delyth a Bleddyn, gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Ebrill fydd Rhian Nelmes (rhian.nelmes@btinternet.com) a Shân Evans (sae4@live.co.uk).

Y dyddiad cau yw 3 Ebrill a bydd y papur ar werth ar 10 Ebrill.

Diolch yn fawr Paul

Gan mai hwn fydd y rhifyn olaf o *Bapur Pawb* i gael ei argraffu dan ofal Paul Williams fel Rheolwr Cynhyrchu yn y Lolfa, yr ydym fel cyfeillion y papur yn dymuno diolch o galon iddo am ei gefnogaeth a'i wasanaeth cyfeillgar ac effeithiol ar hyd y blynyddoedd. Bu Paul yn gefnogol iawn i fudiadau lleol, gan gynnwys ymgyrch y Cae Bach a'r Clwb Pêl-droed Ieuenctid, ac y mae'r Lolfa fel busnes sydd â chydwybod gymdeithasol wedi bod yn gefn i weithgareddau'r gymuned hefyd. Braf yw cael cydnabod ein gwerthfawrogiad yn gyhoeddus fel hyn. Cyflwynwn ein dymuniadau gorau oll iti, Paul, yn y dyfodol.

Gohebiaeth

Annwyl Olygydd
Ar ran Bethan Bryn, carwn ofyn a fyddai modd i chi gynnwys yr erthygl isod am ei phrosiect cerdd dant diweddaraf yn eich papur, os gwelwch yn dda.

Yn gywir,
Eleri Roberts

DATHLU'R GWANWYN
Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol baratoi i ymweld â chaeau Llantwd ger Aberteifi ym mis Awst, dewch i ddathlu gobaith a goleuni'r gwanwyn mewn noson a ysbrydolwyd gan eiriau Dic yr Hendre.

Mae DATHLU'R GWANWYN yn ffrwyth cydweithio agos rhwng y cerdd dantwyr Bethan Bryn, Aberystwyth ac Arfon Williams, Cwmtirmynach wrth iddynt osod awdl gyflawn *Gwanwyn* Dic Jones, a hynny ar achlysur hanner canmlwyddiant ei chyfansoddi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi 1976, y tro diwethaf i'r brifwyl ymweld â'r fro.

Y datgeiniaid fydd Parti'r Greal, Parti'r Cwm, Meibion Jacob a Bois yr Arad Goch – partïon sydd rhyngddynt yn cynnwys llu o enillwyr prif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol – a'r telynorion fydd Llio Penri, Eirian Jones a Heledd Davies.

Bydd y prifardd Ceri Wyn Jones, golygydd detholiad o farddoniaeth Dic Jones, yn cyflwyno'r cefndir i hanes cystadleuaeth y Gadair yn 1976 – yr unig dro i ddwy awdl gael eu hargraffu yng nghyfrol y Cyfansoddiadau – ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr awdl. Yn ogystal, cewch gyfle i fwynhau nifer o hen ffefrynnau llên a chân sy–n dathlu perthynas yr hil ddynol â'r tir.

Cynhelir dau berfformiad – nos Wener, 15fed Mai yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth a nos Sul, 17eg Mai yn Eglwys Crist, Y Bala. Mae'r ddwy noson yn dechrau am 7:30 y.h. a'r pris mynediad yw £15 (plant am ddim/pob plentyn i gael tocyn) gyda thocynnau ar werth yn siopau Inc, Aberystwyth (01970 626200) ac Awen Meirion, Y Bala (01678 520658) – arian parod.

Cyflwynir yr holl elw i Ambiwlans Awyr Cymru, elusen sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr i drigolion cefn gwlad Cymru, a chydnabyddir yn ddiolchgar nawdd Cymdeithas Cerdd Dant Cymru.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

MAWRTH

14 **Bore Coffi Pinc** 10.30 Bethlehem, Llandre. Elw at Elusen Canser Cymru a Chanser y Fron

15 **Bethel** 10 Uno yn Seion, Robert Roberts
Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach 9.30

18 **Coffi a Chlonc** 10.30–12 Neuadd Llanfach

19 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach**
Bingo 7.30 Wildfowler

20 **Sesiwn Nos Wener** 8 Llew Gwyn (Linda Griffiths)

21 **Gwledd Gymunedol y Gwanwyn** 7.30–9.30 Cletwr

22 **Bethel** 2 Rhidian Griffiths (C)
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

23 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 'Kilimanjaro' (Ellyw Dafydd)

28 **Sêl pen-bwrdd** Neuadd Goffa Tal-y-bont, 10.00 tan 2.00

29 **Bethel** 10 Uno yn Seion, Stryd y Popty, Geraint Morse (Oedfa'r Ofalaeth)
Rehoboth 10 Watcyn James
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

EBRILL

5 **Bethel** 10 Uno yn Methel, Stryd y Popty, Peter Thomas
Rehoboth 2 Ifan Mason Davies
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

BOB WYTHNOS
Neuadd Goffa Tal-y-bont Bore Mawrth 10–12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
Cletwr Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Cynhelir gwasanaeth
i gofio am
CLEDWYN FYCHAN,
Fedw, Llanddeiniol
(Cwm-rhyd-goch, Elerch, gynt)

ddydd Iau, 19eg Mawrth,
am 1yp
yng Nghapel y Garn,
Bow Street

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 3

Pobl a Phethe

Mair Nutting a phlant yr Ysgol Sul

‘Mor annwyl yw Mair inni’

Cymerodd plant yr Ysgol Sul ran amlwg yn y gwasanaeth a arweiniwyd gan Geraint Evans ar fore Dydd Gŵyl Dewi ym Methel, Tal-y-bont. Cyflwynasant neges Dewi Sant am garu Cymru a’i hiaith a’i diwylliant, a phwysigrwydd gwneud y pethau bychain. Roedd honno’n neges addas iawn, oherwydd ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd cyfle i ddiolch i Mair Nutting am ei gwaith amhrisiadwy gyda’r Ysgol Sul am dros chwarter canrif. Cyflwynodd Fal Jenkins deyrngedau gan nifer o gyn-aelodau’r Ysgol Sul sydd bellach yn oedolion, a chlywyd am yr ysbrydoliaeth yr oedd Mair wedi ei rhoi iddynt yn blant trwy gyfrwng gweithgarwch creadigol a hwyliog. Mynegodd Fal werthfarwogiad o’i chyfraniad amhrisiadwy ar ran diaconiaid a holl aelodau Bethel, a chyflwynwyd tusw o flodau iddi gan blant yr Ysgol Sul. I gloi’r achlysur, cyflwynwyd yr englyn canlynol o waith y prifardd Gwenallt Llwyd Ifan wedi ei fframio yn rhodd i Mair:

Ynghanol ein hysgol ni – ar y Sul
erys hon a’i hegni.
Mor annwyl yw Mair inni;
Ym Methel, angel yw hi.

Diolch am ddymuniadau da
Dymuna Betty Jenkins Pengwern, Tal-y-bont, ddiolch i’w theulu a’i ffrindiau am eu cyfarchion a’r dymuniadau da tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dathlu Pen-blwydd
Dymuniadau gorau i Glenys Jenkins, Penbompren, Tal-y-bont, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, a hefyd i Julian Thomas, Glas-y-ddôl, Tal-y-bont, yntau hefyd wedi dathlu pen-blwydd arbennig.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Siwan a Ben Bradley ar enedigaeth mab bach o’r enw Tomos Glyn, brawd bach i Lilly. Llongyfarchiadau hefyd i Barbara Jenkins, Hafod Ifan, Tre’r Ddôl, ar enedigaeth gor-ŵyr arall, Llion Ellis Griffiths.

Cydymdeimlo
Dymunwn gydymdeimlo â Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont ar golli nai a hefyd i Aled Jenkins, Dôl Pistyll, am golli cefnder yng Nghastell-nedd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â Jen Evans a’r teulu, Neuadd Fawr, Tal-y-bont, ar golli cefnder o Ddihewyd yn ddiweddar.

Ein cydymdeimlad hefyd â Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, sydd wedi colli ei chwaer, Ina Tudno Williams o Gapel Seion. Roedd Ina yn wraig i’r Parch John Tudno Williams.

Cywiriad
Dymunwn gywiro dau beth a oedd yn rhifyn Chwefror. Enw merch fach Amy Hughes yw Millie, chwaer i Rory. Sannan Morgan nid Sarran Morgan sy’n byw yn Avalon, Tal-y-bont. Ymddiheuriadau am hynny.

CFfI Tal-y-bont a’r Cylch

Cast cyflwyniad Clwb Tal-y-bont

Hanner Awr o Adloniant y Ffermwyr Ifanc

Daeth tyrfa dda i wylio dwy sioe adloniant yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, y naill gan Glwb Bro Ddyfi a’r llall gan y Clwb lleol. Perfformiwyd sioe liwgar a bywiog ‘Gogglebocs’ gan aelodau Clwb Tal-y-bont a gafodd ei sgriptio gan Elen Pen-cwm. Roedd yn gyfle i’r swyddogion ddiolch i bawb a fu’n helpu efo’r ochr dechnegol a’r set, ac mae’n amlwg fod pawb o’r cast wedi mwynhau’r profiad. Roedd yn braf gweld fod cymaint o dalentau ifanc yn Nyffryn Dyfi a gogledd Ceredigion o ran actio, canu a dawnsio.



Teleri Morgan, Cadeiryddes, Efa Saunders Jones, Trysorydd a Beca Davies yr Ysgrifennydd yn cyflwyno sieciau i Toby a Mark o 4x4 Response ac Emily o’r Ambiwlans Awyr

Cyflwyno arian i elusennau

Yn ystod y noson hefyd cafwyd cyfle i gyflwyno sieciau i’r tair elusen sy’n elwa ar y gwaith casglu araian a wnaed gan aelodau Clwb Tal-y-bont yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynwyd £1,500 a gasglwyd yn y Cneifio Cyflym fis Awst i elusen 4x4 Response Gorllewin Cymru, sy’n cynnig help i’r gwasanaethau brys mewn argyfyngau. Rhoddwyd £1,114.54 yr un i Prostrad Cymru ac Ambiwlans Awyr Cymru o’r arian a gasglwyd gan y Clwb wrth Ganu Carolau cyn y Nadolig. Clwb Tal-y-bont a gasglodd y swm mwyaf o arian drwy’r holl sir wrth ganu carolau y llynedd.

GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 4

Bethel yn Edrych i'r Dyfodol

Mae eglwys yr Annibynwyr, Bethel, Tal-y-bont erbyn hyn yn rhan o Ofalaeth Newydd Gogledd Ceredigion gyda Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth a dwy o eglwysi'r Bedyddwyr yn lleol, sef Horeb, Penrhyn-coch a Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth.

Mae'r eglwysi wedi uno yn y gobaith o fedru denu gweinidog, ac ar fore Sul 29 Mawrth bydd y Parchedig Geraint Morse o Sir Benfro yn pregethu ar brawf yn Seion Aberystwyth am 10.00 y bore.

Anogir aelodau'r capeli i fynychu'r oedfa ar 29 Mawrth. Bydd cyfle mewn Cwrdd Eglwys bythefnos yn ddiweddarach, sef 12 Ebrill i aelodau Bethel bleidleisio ar briodoldeb gwahodd Geraint Morse i ddod yn weinidog yn yr Ofalaeth. Os bydd unrhyw aelod yn awyddus i gael lifft i'r dref i wrando ar ei bregeth yna dylid cysylltu ag un o'r Diaconiaid. Mae modd i aelodau hefyd benodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan os nad oes modd iddynt fynychu oedfa 12 Ebrill, lle bydd Geraint Evans yn gwasanaethu.

Mewn datblygiad arall yr ydym yn llawenhau bod Janet Jones, Llwynglas wedi derbyn gwahoddiad i fod yn Ddiacon ym Methel. Yr oedd Janet yn Ddiacon yn Nazareth cyn iddo gau ac yr ydym yn falch iawn i'w chroesawu atom yn aelod, a bellach yn Ddiacon.
DPhD

Samariaid Aberystwyth a'r Canolbarth

Rhai o wirfoddolwyr Samariaid Aberystwyth yn dathlu'r 50 mlwyddiant

Ar 10 Chwefror fe gafwyd derbyniad ym Medrus Mawr, Prifysgol Aberystwyth, i ddathlu hanner canrif o wasanaeth di-dor gan Samariaid Aberystwyth a'r Canolbarth. Agorodd y Gangen union 50 mlynedd yn ôl yn 1976. Daeth gwirfoddolwyr a chyn-wirfoddolwyr ynghyd gydag arweinwyr y gymuned a gwesteion eraill i glywed sgyrsiau am hanes y Gangen, ei gwaith presennol, a'i gobaith am y dyfodol. Derbyniwyd negeseuon cefnogol gan Ben Lake A.S. ac Elin Jones A.C.

O'r cychwyn cyntaf, bu'r Samariaid yn Aberystwyth yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, yn unol â gweledigaeth Chad Varah, sylfaenydd y Samariaid ym Mhrydain, wrth iddo annog sefydlu cangen yn y dref.

Erbyn hyn, ar ôl cyfnod o hyfforddi trwyadl, mae'r gwirfoddolwyr yn Aberystwyth yn rhedeg y llinell gymorth Saesneg (116 123) am naw shifft bob wythnos, a'r llinell gymorth Gymraeg bob nos Iau (0808 164 0123). Bydd rhai yn mynd allan i'r gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Canolbarth. Mae'r Samariaid bob amser yn awyddus i recriwtio.

Gweledigaeth y Samariaid yw fod llai o bobl yn marw drwy hunanladdiad. Nid yw pob un sy'n galw'r llinell yn bwriadu ei ladd ei hun, ond mae llawer ohonynt mewn gwewyr meddwl enbyd. Mae'r Samariaid yn canolbwyntio ar wrando ag empathi, heb farnu a heb roi cyngor. Ewch i weld rhagor am ein gwaith ar wefan y Gangen: Samaritans.org/branches/Aberystwyth/

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Jenny Jenkins yn trafod ei hymweliad ag Wcráin

Anodd credu fod pedair blynedd wedi mynd heibio ers i Rwsia ymosod ar Wcráin. Pedair blynedd o ryfela, lladd a dinistr. Clywsom i gyd am yr anfadwaith, ond effeithiodd y sefyllfa gymaint ar Jenny Jenkins nes iddi benderfynu mynd â chymorth dyngarol yn syth i faes y gad.

Daeth atom i siarad â'r gangen am y profiad gan ddweud fel y bu iddi lwytho fan, gafael yn yr olwyn a gyrru yr holl ffordd. Cyrraedd gwlad Pwyl i ddechrau, a gwneud sawl siwrne yn ôl ac ymlaen yno, yna mynd yn uniongyrchol i Wcráin gan wynebu sefyllfaoedd peryglus iawn.

Mae gan Gymru gysylltiadau arbennig ag Wcráin. Y newyddiadurwr Gareth Jones a agorodd lygaid y byd i'r newyn erchyll yno yn y tridegau, ac wrth gwrs yr holl Gymry a fu'n gweithio yn Hughesovka. Gwnaethant hwythau gofio amdanom ni yn ystod streic y glowyr. Roedd y Ddraig Goch yn chwifio yn nifer o'r lluniau a ddangosodd fel galwad i ni gofio amdanynt yn eu trallod.

Cawsom weld fel roedd ffermwyr Wcráin yn tyfu llysiau, eu sychu yna eu gosod mewn pecynnau i warantu bwyd i'r milwyr oedd yn amddiffin y ffin.

Cawsom weld y dillad, teganau, blancedi oedd wedi eu casglu i geisio lliniaru peth ar ddioddefaint yr holl bobol a gollodd eu cartrefi yn y danchwa, neu'r bobol sy'n dal i golli popeth yn ddyddiol fel mae'r rhyfel yn parhau. Cawsom weld y teganau a wnaed gan wirfoddolwyr o Gymru i geisio llonni bywyd y plant bach sydd yn dioddef.

Roedd Jen yn canmol y gefnogaeth a gâi o Geredigion ac yn wir o Gymru gyfan a thu hwnt.

Diolchwyd i Jen gan Medi James gan ein hanog i gasglu cynnyrch pwrpasol i'w anfon y tro nesaf bydd y gangen yn cwrdd.
Enid Gruffudd

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00

01970 832 674

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 5

Noson Hwyl Ddewi

Y gynulleidfa yn cael ei diddanu ar ôl buyta llond bol o gawl a chacennau

Daeth tyrfa dda ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd Goffa Tal-y-bont pan gafwyd adloniant gwahanol i'r arfer. Talentau lleol oedd yn diddanu eleni. Cafodd y gynulleidfa gyfle i fwynhau perfformiadau gan rai o blant yr ysgol gynradd yn eu gwisgoedd Cymreig, a chyflwyniadau amrywiol gan griw o ferched dawnus Cwmni Licyris Olsorts dan ofal Siôn Pennant, Bont-goch. Yn ogystal â chyflwyniadau llafar, cafwyd sawl cân sioe gerdd gan y merched.

Wrth ddiolch i'r prifathro Greg Roberts a'r plant ac i'r merched talentog, dywedodd Mererid Watson, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd, ei bod yn edrych ymlaen at glywed rhai o'r perfformwyr yn y *West End* yn y dyfodol. Diolchodd hefyd i bawb a fu'n brysur yn paratoi'r cawl a'r cacennau.

Gwobrau Tir na n-Og yn 50 oed

Mae Gwobrau Tir na n-Og am lyfrau i blant a phobl ifanc yn dathlu 50 mlynedd eleni. Caiff tair gwobr o £1,000 yr un eu dyfarnu am lyfrau mewn tri chategori, llyfrau Cymraeg oedran cynradd ac uwchradd, a llyfrau Saesneg oedran cynradd neu uwchradd sydd â chefndir Cymreig. Mae gan Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont, flynyddoedd o brofiad fel athrawes ac roedd yn hen gyfarwydd â threfnu'r gwobrau pan oedd yn Bennaeth yr Adran Blant gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Ond mae'r rhod wedi troi erbyn hyn, ac eleni mae hi'n un o'r beirniaid. Buom draw yn ei holi am ei hoffter hi o ddarllen ac am y profiad o feirniadu.

Pa fath o lyfrau oeddet ti'n hoffi eu darllen pan oeddet yn blentyn, a phwy oedd dy hoff awduron?
Ron i wrth fy modd yn darllen pan yn blentyn. Yr atgofion cynharaf sy gen i yw darllen y llyfrau Coch a Gwyrdd yn yr ysgol gynradd, anturiaethau'r crochan a'r mochyn, roedd y lluniau yn wych. Nofelau Saesneg wedyn, Enid Blyton, *The Secret Garden*, *Black Beauty* ac eraill. Hefyd cofio prynu nofelau byrion Paddington Bear gan Michael Bond a llyfrau bychain Richard Scarry bob tro byddem yn mynd ar y bws i Abertawe.

Pa rai yw dy hoff lyfrau a dy hoff awduron erbyn hyn?
Erbyn hyn, dwi'n darllen pob math o lyfrau, yn ffuglen ac yn ffeithiol. Yn Gymraeg dwi'n dwlu ar lyfrau Mihangel Morgan, Eurig Wyn, Angaharad Tomos a Lleucu Roberts ymhlith nifer eraill. Ar hyn o bryd dwi'n darllen llyfrau ffeithiol am y cymeriadau dewrion a fentrodd i'r Arctig. O ran llyfrau i blant, mae Huw Aaron yn athrylith.

Pa mor bwysig wyt ti'n credu yw Gwobr Tir na n-Og i lenyddiaeth plant yma yng Nghymru?
Mae unrhyw beth sy'n codi proffil llyfrau i blant a phobl ifanc yn beth da. Hoffwn i ei weld yn cael llawer mwy o sylw.

Heb ddatgelu unrhyw gyfrinachau am yr enillwyr, sut brofiad oedd beirniadu'r gystadleuaeth eleni?
Roedd darllen y llyfrau a ddaeth i law eleni yn brofiad difyr dros ben. Roedd yna un neu ddau nad oeddwn i ddim am eu rhoi lawr. Roedd trafod y llyfrau gyda fy nghyd-feirniaid yn brofiad newydd i mi gan mod i ddim yn aelod o unrhyw glwb darllen.

Sut wyt ti'n gweld y byd llyfrau plant wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a beth wyt ti'n credu yw'r heriau i ddenu plant i ddarllen erbyn hyn?
Cael llyfrau da o bob math i ddwylo plant a phobl ifanc yw'r her i bob iaith weden i. Mae rhinweddau darllen wedi eu profi sawl gwaith, ac mae plant yn dal i fwynhau darllen llyfrau da. Mae rhaid i blant weld oedolion yn darllen, dyna sut mae creu darllenwyr. Felly, os yw'r rhieni â'u pennau mewn dyfais, dyna beth fydd normalrwydd i blentyn hefyd.

Rhaid dal i fuddsoddi mewn comisiynu awduron o safon ac addasu lle bo angen. Hefyd buddsoddi er mwyn cael llyfrau newydd i bob un ysgol. Mae diwyg llyfrau Cymraeg wedi gwella yn ystod y degawd ddiwethaf, sy'n beth i'w groesawu.

Pryd bydd yr enillwyr yn cael eu datgelu eleni?
Bydd y rhestrau byrion ymhob categori yn cael eu datgelu yn ystod mis Mawrth a chyhoeddir yr enillwyr yn ystod mis Mai, a'r enillwyr categorïau Cymraeg yn ystod Eisteddfod yr Urdd.

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 6

Parêd Gŵyl Ddewi

Caoimhe Melangell o'r Bont-goch a gafodd y fraint o arwain gorymdaith y Parêd yn Aberystwyth ar ran Ysgol Penweddig eleni. Yr oedd Caoimhe hefyd yn un o ferched Cwmni Licyris Olsorts a fu'n diddanu yn Noson Hwyl Ddewi

Einion Gruffudd yn canu'r pibgorn, a'i rieni'n cadw golwg arno dros ei ysgwydd

Sudoku Papur Pawb

	1		2		5			8
	2	4	9	8				5
	5	8	7		1		2	
6		5	3		2		8	1
2		7	1			3		9
		1	5		8	2	6	
		2	6		7	8		
8				1		5		2
		9		2	3		1	

Dyma Sudoku Papur Pawb. Rhowch rhif o 1 i 9 ym mhob cell wag fel bod pob rhes, colofn a blwch yn cynnwys pob rhif o 1-9 heb ail-adrodd. Cofiwch ddefnyddio rhifau Cymraeg yn unig!

Cornel Cŵl

Cwis Blodau

1. Beth sy'n helpu blodau i dyfu?
a. yr awyr
b. glaw a haul
c. pry copyn

2. Beth yw blodyn cenedlaethol Cymru?
a. cenhinen bedr
b. clychau glas
c. llygaid y dydd

3. Mae gwenyn yn helpu blodau i dyfu
a. cywir
b. anghywir

Dewch i Liwio

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 7

Ysgol Tal-y-bont

Casi Wyn

Unawd Telyn

Ffarwel Miss Iona

Eisteddfod Offerynnol yr Urdd

Rydym yn falch iawn o Delilah am gystadlu yn yr unawd telyn Blwyddyn 6 ac iau yn yr Eisteddfod Offerynnol Rhanbarth Ceredigion a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Aeron ar y 26ain o Chwefror.

Ymweliad gan Casi Wyn a Gwasanaeth Addysg Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi a gan fod Ysgol Tal-y-bont wedi ei lleoli ar lwybr y pererinion rhwng y gadeirlan yn Nhreffynnon a'r gadeirlan yn Nhŷ Ddewi, man claddu Dewi Sant, bu plant Dosbarthiadau Allt-y-Crib a Braich Garw yn ffodus iawn i gael cymryd rhan mewn gweithdy 'Gwnewch y Pethau Bychain' dan nawdd Llywodraeth Cymru.

Cafwyd gweithgareddau hyfryd yn seiliedig ar ddeunyddiau o'r casgliad Cenedlaethol sy'n adlewyrchu ein hunaniaeth fel Cymry a chafodd y plant gyfle i gyfansoddi geiriau ac alawon ar themâu Cymru, Cennin Pedr a Dewi Sant gyda'r amryddawn Casi Wyn.

Parêd Gŵyl Dewi

Dan haul ac awyr las o'r diwedd, roedd hi'n braf cael cymryd rhan yn y Parêd yn Aberystwyth ddydd Sadwrn 28ain o Chwefror. Dechreuodd yr orymdaith o Gloc y Dre' gan orffen ar Sgwâr y Brenin lle cafwyd araith hyfryd gan y tywysydd Megan Jones Roberts. Diolch yn fawr i Morven ac Ela am gario baner Ysgol Tal-y-bont ac roeddem hefyd yn falch o weld cyn-ddisgybl, Caoimhe Melangell yn cario baner y Parêd mor urddasol.

Ffarwél a Diolch yn Fawr Miss Iona

Ar ôl bron i bum mlynedd mae wedi dod yn amser dweud hwyl fawr wrth Miss Iona. Rydym yn ddiolchgar iawn am ei chymorth ac yn dymuno'n dda iawn iddi i'r dyfodol wrth iddi gymhwyso i fod yn Therapydd Chwarae.

Parêd Gŵyl Ddewi

Dosbarth Braich Garw

Mae dosbarth Braich Garw wedi parhau i ddysgu am Aberfan. Maent wedi bod yn brysur yn ysgrifennu cerddi am Aberfan ar gyfer Eisteddfod yr ysgol, yn ogystal â chynllunio eu hadroddiadau papur newydd am y digwyddiadau yn Aberfan. I atgyfnerthu eu dysgu, aethant hefyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i weld rhai o'r lluniau gwreiddiol, adroddiadau papur newydd a mapiau o Drychineb Aberfan.

Chwaraeon

Cafodd rhai disgyblion o Flwyddyn 5 a 6 y cyfle i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd gymysg yr Urdd. Gwnaethant yn wych ac roeddent yn anlwcus iawn i beidio â chyrraedd y rownd gynderfynol.

Cafodd tîm rygbi tag y merched hefyd gyfle i gystadlu yn nhwrnamaint rygbi tag yr Urdd. Chwaraeon nhw'n dda iawn yn ystod y twrnamaint ac fe wnaethon nhw fwynhau'r profiad yn fawr.

Dosbarth Mynydd Gorddu

Daeth Lesley Lewis i'r ysgol yn ddiweddar fel rhan o weithgareddau wythnos iechyd meddwl i ddysgu pilates. Roedd y plant wedi mwynhau'n fawr iawn. Diolch yn fawr Lesley.

Bu plant y dosbarth yn brysur yn coginio pice ar y maen a thorri llysiau i wneud cawl fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Ar ddechrau'r mis bu'r plant yn brysur yn edrych ar adar fel rhan o ymgyrch RSPB. Gwelwyd llawer o adar gwahanol o gwmpas yr ysgol, yn enwedig yn yr ardd.

Pilates

Paratoi llysiau

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 8

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli'r Neuadd ddechrau Chwefror, gydag 14 yn bresennol.

Derbyniwyd adroddiad gan y Cadeirydd, Mererid Watson yn nodi yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2025 gan gynnwys llwyddiant y Ffair Nadolig a'r gwelliannau i hygyrchedd yr adeilad, sef ramp i'r Neuadd Waelod a grisiau newydd i'r ystafell reoli. Diolchodd i aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gynorthwyo bob amser ac i'w chyd-swyddogion. Diolchodd hefyd i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr am eu cefnogaeth ariannol.

Yn ei adroddiad yntau nododd y Trysorydd, Ieuan Morgan, fod cyfanswm Derbyniadau am y flwyddyn yn £10,831 a chyfanswm y Gwariant am y flwyddyn yn £10,043. Mewn Llaw yn y banc ar ddiwedd 2025 yr oedd £15,937 o'i gymharu â £15,076 ddiwedd 2024. Cyflwynwyd adroddiad gan David Nutting, y Trysorydd Codi Arian, yn dangos ein bod wedi derbyn llog gwerth £434 ar ein buddsoddiadau yn y Cyfrif Cadw ac erbyn hyn yr oedd £26,746.40 yn y Cyfrif.

Trafodwyd telerau gosod y Neuadd a chytunwyd i beidio â chodi'r costau am yr ail flwyddyn o'r bron.

Cyn mynd ati i ethol swyddogion diolchodd y Cadeirydd i Phil Davies, oedd yn rhoi'r gorau i swydd yr Ysgrifennydd ar ôl cyfnod o 10 mlynedd wrth y gwaith. Croesawyd Siwan Thomas i'r swydd. Etholwyd y canlynol: Cadeirydd: Mererid Watson; Is-gadeirydd: Gwenallt Llwyd Ifan; Ysgrifennydd: Siwan Thomas; Trysorydd: Ieuan Morgan; Trysorydd Codi Arian: David Nutting.

Trafodwyd sut i ddenu aelodau ychwanegol i'r Pwyllgor. Penderfynwyd dal ati i chwilio am wynebau newydd a chytunwyd i ysgrifennu at yr Ysgol yn eu gwahodd i anfon cynrychiolydd i fod ar y Pwyllgor.

Yng nghyfarfod misol y Pwyllgor a ddilynodd y Cyfarfod Blynyddol cafwyd cyfle hefyd i ddiolch i Bob Williams, Penwern oedd yn ymadael â'r Pwyllgor ar ôl cysylltiad di-dor o dros drigain mlynedd. Mawr yw ein dyled iddo am oes o wasanaeth.

Cyhoeddwyd hefyd y byddai Theatr Troedyrhiw yn ymweld â'r Neuadd ar nos Fawrth 28 Ebrill. Byddant yn perfformio dwy ddrama: *Adar o'r Unlliw* gan Elain Roberts a *Miss* gan Bethan Jones-Ollerton.

DPhD

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Estynnwyd croeso i Iestyn a Marian Hughes, Bow Street, i'r cyfarfod ar 10 Chwefror, a chawsom weld ffilm o'u gwyliau yn Ewrop yn ystod mis Mai y llynedd. Ar ôl hedfan i Napoli, aethant ar daith ar yr Interrail ar draws wyth o wledydd Ewrop gan aros mewn nifer o ddinasoedd hanesyddol ar hyd y ffordd, cyn gorffen y daith ym Mharis. Roedd yn braf gweld y golygfeydd hyfryd a lluniau o'r dinasoedd a welsant ar hyd y daith, yn ogystal â chael hanes a disgrifiad am y lleoliadau. Diolchwyd yn gynnes iddynt am eu cyfraniad, a daeth y prynhawn i ben gyda phaned a chacen a baratowyd gan Mair Rowlands a Carys Briddon.

Diolch Bob

Ar ôl gwasanaethu am 60 mlynedd fel aelod o Bwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa, mae Bob Williams, Y Berllan, Tal-y-bont, neu Bob Penwern i'w gyfeillion a'i gydnabod, wedi ymddeol. Dechreuodd fynd i'r Neuadd yn 13eg oed i'r Clwb Ffermwyr Ifanc, a phan oedd yn 26 oed yr ymunodd â'r Pwyllgor Rheoli gyntaf, a gwasanaethodd fel cadeirydd ac is-gadeirydd sawl tro. Y mae Bob a'i hen ffrind ysgol, Ieuan Morgan, y Trysorydd a'r Gofalwr presennol, wedi rhoi o'u hamser a'u hegni i wneud llawer o waith cynnal a chadw a pheintio ar hyd y blynyddoedd.

Fel ateb i'r cwestiwn pam y bu mor ffyddlon i'r Pwyllgor Rheoli, dyma a ddywedodd:

'Roeddwn i'n teimlo fod cyfrifoldeb i edrych ar ôl y Neuadd Goffa oherwydd yr aberth a aeth i'w chodi yn y lle cyntaf. Mae gen i atgofion bythgofiadwy. Pleser oedd o yn fwy na dim byd. Un o'r pinaclau o ran nosweth gofiadwy i mi oedd cyngerdd Côr Gwalia dan arweiniad Rhys Jones. Rydw i'n falch o'r Neuadd fach sydd genno ni ac mae eisie edrych ar ei hôl hi.'

Ac yntau bellach yn 87 oed, a bod aelodau ifancach wedi ymuno â'r Pwyllgor, roedd yn teimlo ei bod yn bryd rhoi'r gorau iddi. Bydd y Pwyllgor yn gweld eisiau ei gyngor doeth, ac yn fwy na dim, ei gwmni hwyliog a chlên. Diolch o galon Bob.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
07939 604804

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL
01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 9

Rhai o'r bobl ifanc a fu'n creu'r ffilm 'Mae'r tir a'r môr yn newid yn barhaus'

Trwsio Ein Planed

Mae cynhyrchwyr ffilm ifanc o ardal Aberystwyth wedi creu ffilm ar thema 'Mae'r tir a'r môr yn newid yn barhaus' fel rhan o raglen 'Trwsio ein Planed' y *Natural History Museum,* Llundain.

Cynhaliwyd dangosiad cyntaf y ffilm yn Neuadd Llan-fach, Taliesin, ganol mis Chwefror. Mae'r ffilm yn dangos ymateb creadigol i'r newidiadau sy'n digwydd i'r tirwedd yng nghyffiniau aber afon Dyfi. Buont wrthi am fisoedd yn paratoi drwy gefnogaeth Tir Canol ac Amgueddfa Ceredigion, a chyflwyna'r ffilm farn y bobl ifanc a'u pryderon ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

Bydd y ffilm yn cael ei dangos yn yr Oriel Archaeoleg newydd yn Amgueddfa Ceredigion a fydd yn cael ei hagor ym mis Mai 2027. Dywedodd Carrie Canham, Curadur yr Amgueddfa, y bydd yr Oriel newydd yn edrych ar y ffordd y mae'r boblogaeth leol, planhigion ac anifeiliaid wedi gorfod addasu wrth i'r hinsawdd newid ar hyd y canrifoedd.

Y mae'r prosiect hwn yn un o 12 sy'n rhan o raglen 'Trwsio ein Planed' y *Natural History Museum,* a chefnogir Tir Canol, sy'n weithredol yn yr ardaloedd arfordirol rhwng afonydd Rheidol a Dyfi, gan Sefydliad Esmée Fairbarn.

gyda Llio Evans - soprano

Gloria	Francis Poulenc
Stabat Mater	Giuseppe Verdi
Chants d'Auvergne	Cantaloube

25 Ebrill 7.30 yh Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

Tîm Talwrn Tal-y-bont

Llongyfarchiadau i Dîm Talwrn Tal-y-bont ar guro Tîm y Diwc o Gaerdydd yn Rownd Gyntaf Talwrn y Beirdd Radio Cymru mewn cystadleuaeth glòs ym mis Chwefror. Byddant yn awr yn herio tîm Beca yn yr Ail Rownd mewn gornest fydd yn cael ei recordio nos Fawrth 21 Ebrill. Mae modd gwrando'n ôl ar yr cyfan trwy ymweld â BBC Sounds. Dyma flas o'r cynnyrch a dderbyniodd ganmoliaeth uchel gan y Meuryn, Ceri Wyn Jones, yn enwedig englyn campus Anwen a gipiodd 10 marc.

Englyn: Tâl
[Andrew / Virginia Giuffre]
Ar fantolen ei lechen lân – aeth gwerth
Y gwir yn frasamcan;
I'r un barus am gusan
Nid yw merch ond newid mân.
Anwen Pierce

Cân ysgafn: Dewis Enw
Ei waith oedd nodi enw pob cr'adur yn y Sŵ,
Pob Mwnci a phob Carw, pob Sgync a Gwdihŵ.
Ond wrth drosglwyddo'r data rhyw ddydd i ffeil Excel
Fe wasgodd ef y botwm rong a gwaeddodd 'blydi hel'.

Cyn hir roedd Pwsi'r Bwji a Joey'r Gath, a'u plant,
A Jymbo'r Neidr Gantroed a Col yr eliffant,
A Begw blin y Camel a Humphrey'r Iâr a'u siort,
Ynghyd â Ceri'r Peithon yn awr yn destun sbort.

Gerllaw i gaets Goliath, Morgrugyn bychan bach,
Roedd cawell yn dal Siriol, Tarantula llawn strach.
Mewn pwll roedd Ben y Morlo, a hefyd ei chwaer Bil,
Ac Arthur bach yr Hipo, a Rhodri'r hen Arth swil.

Mae Heulwen Haf yr Ystlum yn hongian ben chwith lawr,
A'r Siarc, a elwir Tiddles, yn destun c'wilydd mawr.
Fe glywyd Gwyn y Pathew a Pat yr Arth fawr wen
A Cedric yr Hyena yn chwerthin ar ei ben.

Beth ddaeth o'r warden druan, a gawliodd enwau'r Sŵ?
Yr oedd y mwlsyn bellach 'da Wini yn y Pŵ.
Fe'i gwelwyd yn llawn dychryn, yn jengyd mas y bac,
O afael Smot y Sebra a Llew y Teigr crac.
Phil Davies

Triban yn cynnwys y llinell 'Mae'n bosib cael llond bola'
Mae'n bosib cael llond bola
ar fyw mewn byd llawn twpdra,
a dyna pam dwi'n pacio'n glou
a ffoi i Wlad y Rwla.
Anwen Pierce

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 10

Colofn Ben Lake AS

Gan ei bod hi bellach yn fis Mawrth, hoffwn ddymuno Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi gyd. Mae'r cyfnod yma yn gyfle i ni ddathlu ein cenedl, ein hiaith, a'n diwylliant, ac fe dathlwyd dydd ein Nawddsant eleni mewn digwyddiadau ledled y byd.

Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae'r Cymry yn Llundain yn dod at ei gilydd i ddathlu Dewi Sant a'u Cymreictod yn y ddinas fawr, ac roedd hi'n braf medru ymuno â nhw yn San Steffan. Mynychais sawl digwyddiad yn ystod 'Wythnos Cymru Llundain', ond yr uchafbwynt eleni eto oedd y gwasanaeth Cymraeg yng nghapel Santes Fair Undercroft, ger neuadd hynafol Westminster Hall. Braint oedd noddi'r gwasanaeth, lle cafwyd darlleniadau gan Aelodau Seneddol o Gymru a chanu hyfryd gan blant Ysgol Gymraeg Llundain. Braf oedd croesawu'r Parchedig Ganon Dyfrig Lloyd i draddodi'r bregeth: dewis priodol o gofio iddo wasanaethu fel ficer plwyf Llanddewi Brefi flynyddoedd yn ôl.

Yn dilyn y gwasanaeth croesawyd Aelodau Seneddol ac Arglwyddi i fynychu digwyddiad 'Blas ar Gymru'. Hyfryd oedd gweld busnesau bwyd a diod o bob cwr o'n gwlad yn arddangos eu danteithion i gynulleidfa seneddol. Roedd hi'n anodd peidio rhyfeddu at yr ansawdd arbennig a'r ystod syfrdanol o fwydydd y mae Cymru fach yn eu cynhyrchu, ac yn enwedig Cymru wledig.

Mawr obeithiaf y bydd nifer o'r Gweinidogion wnaeth fynychu'r digwyddiad, a blasu ein nwyddau, yn myfyrio rhywfaint ar effaith polisïau'r Llywodraeth ar gefn gwlad Cymru. 'Nôl ym mis Rhagfyr siaradais mewn araith yn Nhŷ'r Cyffredin i godi'r pryder cynyddol am y bwlch rhwng cymunedau ac economïau gwledig yng Nghymru a'r polisïau sy'n cael eu dylunio ar ein cyfer yn San Steffan. Rydym eisoes wedi gweld sut mae'r newidiadau i ryddhad ardrethi busnes a fferm o'r dreth etifeddiaeth wedi effeithio ar fusnesau bach a busnesau fferm: mae tua 55% o fusnesau bach a 49% o fusnesau fferm wedi canslo buddsoddiadau arfaethedig wrth ragweld yr effaith ar eu busnesau.

Dylid hefyd gofio cyfraniad busnesau teuluol i'n heconomi leol. Mae 81% o holl fusnesau Ceredigion Preseli yn fusnesau bach, ac mae effaith penderfyniadau diweddar y Llywodraeth i dreth cyflogwyr – yn ogystal â'r cynnydd yn nhrethi busnes – yn pwyso'n drwm ar eu gallu, nid yn unig i gynnal bywoliaeth eu cyflogai, ond hefyd eu gallu i barhau. Mae'n glir bod angen cefnogaeth ar ein busnesau bach, ac fe fyddaf yn dadlau'n gryf y dylid ailystyried y drefn trethu busnes a'r cynnydd yn nhreth cyflogaeth pan fydd y Canghellor yn trafod ei chynlluniau economaidd fel rhan o'r drafodaeth ar datganiad y Gwanwyn eleni.

Y gwir amdani yw bod rhaid i'r weinyddiaeth yn Llundain – a Chaerdydd – gydnabod anghenion penodol cefn gwlad, a sicrhau triniaeth deg i'n cymunedau. Byddaf yn parhau i bwyso am weithredu pendant gan y Llywodraeth i gefnogi Cymru wledig hyd nes ei bod yn cynnig mesurau i fynd i'r afael â phroblemau economaidd yr ardaloedd gwledig.

Ysgyfarnog Coed Taliesin drwy garedigrwydd yr artist Jenny Fell

Y Pry Mawr

Ryw brynhawn hirfelyn tesog o haf dros ddeugain mlynedd yn ôl, a finnau'n byw yn Nhŷ Hen yng Nghwm Leri, dyma ymwelydd annisgwyl yn loncian heibio ar ei goesau ôl ar ryw berwyl brys anhysbys hyd y llwybr o flaen y tŷ tuag at yr afon. Yn union fel y disgrifiad yng ngherdd R. Williams Parry, *Y Peilon*, 'fe wibiodd pry ar garlam igam-ogam...'– sef ysgyfarnog, neu 'bry mawr' yn y gogledd.

Am ryw ychydig wedyn, fe wibiai'r un pry, am wn i, heibio i'r tŷ ar union yr un amser bob dydd.

Yn ôl Chloë Dalton yn ei chyfrol ddiweddar *Raising Hare,* sy'n disgrifio sut y bu iddi roi lloches ar ei haelwyd i lefren fach wedi'i hamddifadu, un o nodweddion y sgwarnoges dan ei gofal oedd tueddiad i wneud yr un un pethau ar yr un un amser bob dydd!

Mae stori Chloë yn enghraifft arall o boblogrwydd ac atyniad yr anifail cyfareddol yma. Boed yn ddelwedd ar gardiau cyfarch, yn ddyluniad ar grysau-T, wedi'i ymgorffori mewn darluniau a thrugareddau o bob math, mae'r hen bry mawr i'w weld ym mhob twll a chornel y dyddiau hyn.

Mae'r sgwarnog wedi tynnu sylw erioed wrth gwrs, o ddyddiau chwedl Melangell a Gerallt Gymro i drên bach sgwarnogod Bob Delyn sy'n dod i achub y byd.

Anifail sanctaidd ydi o mewn sawl diwylliant ac yn symbol o adfywiad y gwanwyn. Yn chwedl Taliesin, dewis cyntaf Gwion bach wrth ffoi rhag Ceridwen y wrach oedd troi'n sgwarnog ac roedd yna dipyn o fri ar gyfrwystra a chlyfrwch y greadures pan fyddai o flaen helfa.Yn aml, byddai'n cuddio o dan y ferywen (*juniper*) fel y byddai sawr cryf y dail yn drysu'r helgwn oedd ar ei thrywydd.

Cysylltir sgwarnogod â phob math o hud a lledrith a cheir tipyn o sôn amdanynt yng nghyd-destun gwrachod. Weithiau, byddai gwrach honedig yn ei throi'i hun yn sgwarnoges i gyflawni rhyw fistimaners yn erbyn cymydog oedd wedi'i phechu neu'n defnyddio ei galluoedd i droi rhywun yn sgwarnog ac yn gyrru cŵn hela ar ei hôl nes i'r cymydog wneud iawn am ei dramgwydd.

Byddai gweld sgwarnog yn codi cryn fraw ar ferched beichiog gan ofni y byddai'r un bach yn cael ei eni efo gwefus hollt, yr *hare lip* bondigrybwyll. Er mwyn osgoi'r aflwydd yma, byddai'n rhaid i'r ddarpar-fam rwygo pa bynnag wisg oedd amdani deirgwaith yn y man a'r lle.

Glywsoch chi erioed alwad y sgwarnog? Dw i o ddifri, cofiwch. Fel mae'n digwydd, ro'n i wedi clywed yr alwad heb glem beth oedd hi wrth gerdded yn y coed uwchben Taliesin, yn dod o'r caeau islaw Cefn Erglodd (rhywle lle gwelwch chi aml i sgwarnog). Wedyn, dyma ddigwydd clywed rhaglen ffermio Saesneg yn trafod y mater a nabod y sŵn ro'n i wedi'i glywed yn y coed. Os ewch i YouTube a phwnio 'Hares Calling' i'r injan chwilota gallwch ei glywed drostoch chi'ch hun.

Rydyn ni'n lwcus iawn yn ardal *Papur Pawb* – mae gynnoch chi siawns go lew o weld un o'r creaduriaid lledrithiol yma pan fyddwch yn mynd am dro.

Yn ei gerdd *Y Peilon*, mae R. Williams Parry yn portreadu'r pry mawr fel symbol o natur yn adfywio er gwaetha'r 'llymbar' metel sydd wedi'i godi yng nghanol cynefin y sgwarnog. Efallai y bydd un o feirdd bro *Papur Pawb* yn mynd ati i gyfansoddi cerdd debyg efo'r un neges – o'r enw *Y Melinau Gwynt!*

Martin Dafis

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 11



Ymgyrch y Cae Bach yn codi stêm

Ers mis Mai 2023 mae aelodau gweithgar pwyllgor y Cae Bach wedi llwyddo i godi £50,600. Daeth £26,740 o'r arian hwnnw drwy grantiau, a'r gweddill yn rhoddion gan unigolion a busnesau lleol ac arian a godwyd mewn digwyddiadau. Mae rhywfaint o'r arian wedi'i wario'n barod ar gael arolwg o'r y safle a pharatoi cynllun draenio.

Bu'r trigolion lleol yn hynod gefnogol o'r cychwyn cyntaf, gyda sawl un yn rhoi help llaw yn ystod digwyddiadau codi arian. Ymgynghorwyd â phlant yr ysgol gynradd, a nhw sydd wedi dewis y cyfarpar newydd. Roedden nhw hefyd am gael ardal natur gyda blychau nythu, cartrefi trychfilod, a digon o blanhigion, ac ati.

Mae cwmni Proludic wedi darparu llun o'r cynllun newydd, a bydd modd datblygu'r cae mewn rhannau fel y daw arian i mewn i'r gronfa. Deunydd o'r enw Nikegrind a fydd yn cael ei ddefnyddio i orchuddio'r llawr, sef hen sgidiau rhedeg wedi'u hailgylchu a'u malu'n fân.

Cerdded Cymru dros ymgyrch y Cae Bach

Mae Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, wedi cyhoeddi y bydd yn cynnal cyfres uchelgeisiol o ddeg o sialensau personol i gasglu arian, ac i ddathlu 53 o flynyddoedd ers pan agorwyd y Cae Bach yn 1973. Ymhlith yr heriau a osododd iddo'i hun y mae dringo i gopa ddeg o fynyddoedd Cymru, cerdded llwybr Clawdd Offa i gyd mewn deng niwrnod, a cherdded 47 milltir o Fachynlleth i Drefaldwyn mewn llai na 24 awr. Ond yr her fwyaf, o bosib, fydd cerdded rownd pentref Tal-y-bont 53 o weithiau (sef pellter o 53 milltir), mewn 24 awr ar 11 a 12 o Fedi eleni.

Lansiodd yr her ar Ddydd Gŵyl Dewi, ac ers hynny mae wedi bod yn cerdded deng milltir y dydd ar gyfartaledd. Cadwch olwg ar gyfrif Gweplyfr Gerwyn i ddilyn ei daith, ac os ydych am ei gefnogi'n ariannol, cysylltwch ag ef ar e-bost: gerwynjones100@icloud.com.

Pob lwc Gerwyn, a dos amdani!

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Alun Davies
Contractiwr Trydanol
M 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278
Dewch o hyd i ni ar @Garej Davmor

pp Mawrth 26.qxp_Layout 1 09/03/2026 14:26 Page 12

Chwaraeon a Hamdden

Penparcau yn ymosod

Siom i Dal-y-bont

Ar ddydd Sadwrn cyntaf Mawrth, daeth torf sylweddol – efallai'r fwyaf erioed – i Gae'r Odyn Galch i wylio gêm fwyaf tyngedfennol y tymor rhwng Tal-y-bont a Phenparcau. Ar ddechrau'r dydd roedd y ddau glwb ynghlwm ar frig Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch ar 32 pwynt a heb golli gêm. Rhaid, felly, oedd i'r sefyllfa newid o ganlyniad i'r gêm hon.

Cafodd Tal-y-bont ddechrau da wrth i Siôn Pugh sgorio gydag ergyd nerthol ar ôl deg munud. Ond yn fuan wedyn anfonwyd Harry Turner oddi ar y cae gan y dyfarnwr, ac am weddill y gêm roedd yn rhaid i Dal-y-bont chwarae gyda deg dyn. Llwyddodd y tîm i gadw ymosodwyr Penparcau yn weddol dawel hyd at funud olaf yr hanner cyntaf. Ond dyfarnwyd cic o'r smotyn i Benparcau a sgoriodd Lawton yn rhwydd.

Yn yr ail hanner, gyda Callum Richards a Llion Jenkins yn amddiffyn yn gadarn, roedd gobaith y gallai Tal-y-bont lwyddo i beidio ag ildio gôl arall. Ond gydag ugain munud yn weddill sgoriodd Aaron Thomas-Davies i Benparcau. Pwysodd Tal-y-bont yn hwyr yn y gêm ond roedd amddiffyn Penparcau yn ddi-ildio ac 1-2 oedd y sgôr ar y diwedd.

Er y siom a'r siawns o ennill y bencampwriaeth am yr eildro yn olynol yn pylu, mae gan y clwb gyfle i lwyddo yng nghystadlaethau'r cwpan. Eisoes cafwyd llwyddiant yng nghystadleuaeth Cwpan Goffa Dai Dynamo Davies pan gurwyd y Borth oddi cartref o 2-1, gyda Simon Watson-Smith a Llion Jenkins yn sgorio'r goliau.

Brwydro am y bêl

argraffu
lleol a rhesymol

ylolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 /www.ylolfa.com
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
Cymraeg